



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2019 am 10.00 am ym Ystafell Bwllgor 1, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Hopkins Y Cyngorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Ms T Prosser, Pennaeth Gwasanaeth
Ms S Nowell, Pennaeth Materion Trawsnewid
Mrs. J Allen, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifainc
Ms M Meredith, Rheolwraig y Gwasanaethau Preswyl

1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Rosser, S. Rees-Owen, L. Jones a J. James.

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb hefyd gan Tros Gynnal Plant (TGP Cymru).

2 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 Cofnodion

PENDERFYNODD yr Aelodau gymeradwyo'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 8 Mai 2019 yn rhai cywir.

4 Newid i Drefn yr Agenda

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

5 Newid i'r Model Gweithredu ar gyfer Cynhalwyr Ifainc

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Gofal a Chynnal i Oedolion gyflwyniad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am ganlyniad yr adolygiad o'r Cynllun Cynnal y Cynhalwyr a'r newidiadau dilynol ar gyfer asesu a chynnal cynhalwyr ifainc.

Rhoddodd y swyddog wybod i'r Aelodau fod Grŵp Partneriaeth Rhanbarthol wedi goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth i Gynhalwyr ar y cyd â'r Bartneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. O ganlyniad, cafodd Glasbrint ei nodi sy'n ceisio amlinellu sut olwg ddylai fod ar wasanaeth cynhwysfawr i gynhalwyr, a thra bod gan Rhondda Cynon Taf record dda o gefnogi cynhalwyr, cafodd rhai meysydd i'w gwella eu nodi hefyd.

Dywedodd y swyddog y cynhaliwyd adolygiad cynhalwyr yn ystod 2018/19, dan arweiniad y Cynllun Cynnal y Cynhalwyr, a oedd yn ystyried goblygiadau ehangach y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed am y canlyniadau cadarnhaol canlynol mewn perthynas â'r adolygiad o Gynllun Cynnal y Cynhalwyr, a fydd yn ceisio:

- gwella'r profiad i gynhalwyr yn Rhondda Cynon Taf, yn enwedig cynhalwyr ifainc, a fydd nawr yn derbyn yr asesiad IAA statudol; cynllunio ac adolygu cymorth o fewn y gwasanaeth IAA Plant newydd;
- cryfhau'r gallu i arwain ar draws y Cyngor i fynd i'r afael â phroblemau a hawliau cynhalwyr;
- parhau i ddarparu'r gwasanaeth o fewn y Cynllun Cynnal y Cynhalwyr; a
- Cyflwyno'r glasbrint o'r arlwy i gynhalwyr

Achubodd y Swyddogion ac Aelodau ar y cyfle i ganmol y gwaith caled a arweiniodd at yr adolygiad er mwyn sicrhau canlyniadau calonogol i gynhalwyr ifainc. Roedd yr Aelodau'n arbennig o falch o nodi y byddai proffil cynhalwyr ifainc ac ymwybyddiaeth o'r pwysau sydd arnyn nhw'n cael hwb o ganlyniad i'r adolygiad.

Gofynnodd un Aelod a oedd cynhalwyr ifainc yn cael eu hystyried yr yn yr un modd â phlant sy'n derbyn gofal o ran eu bod nhw'n agored i niwed ac angen cymorth. Dywedodd y swyddogion wrth yr Aelodau eu bod, fel rhan o'u dyletswydd gofal, yn cydnabod bod y cynhalwyr ifainc yn blant agored i niwed sydd â risgiau, ac felly caiff yr un lefel o gymorth ei gynnig iddyn nhw ag y byddai pob plentyn sy'n agored i niwed yn ei gael (trwy Gynllun Gofal a Chymorth). Nod hyn yw lliniaru'r cyfrifoldebau a'r pwysau y maen nhw'n yn eu hwynebu.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynhwysiant fod Estyn yn cynnal adolygiad mewn perthynas â chyrhaeddiad addysgol cynhalwyr ifainc, a fyddai'n gyfle i'r meysydd gwasanaeth gydweithio a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion i sicrhau eu bod nhw'n darparu cefnogaeth i'r bobl ifainc.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad. **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

6 Rhaglen Waith y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2019/20

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol adroddiad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol sy'n amlinellu'r rhaglen waith (drafft) ar gyfer

blwyddyn y Cyngor 2018/19. Esboniodd y swyddog fod y rhaglen yn ddull defnyddiol o reoli llwyth gwaith y Bwrdd, ac mae'r adroddiad yn ddogfen newidiol y mae modd ei diwygio trwy gydol y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau sydd gan y Bwrdd.

PENDERFYNODD yr Aelodau gydnabod yr adroddiad.

7 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2018/19

Rhoddodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol i'r Aelodau ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19. Tynnodd yr Adroddiad Blynyddol sylw at y gwaith sylweddol a gafodd ei gyflawni gan y Bwrdd Rhianta Corfforaethol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyfeirio at y llwyddiannau a'r heriau.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i estyn ei diolch i'r Aelodau a'r swyddogion, ac yn arbennig i'r bobl ifanc a fynychodd y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn.

Esboniodd y swyddog pe bai Aelodau yn derbyn yr adroddiad drafft, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, ac wedyn i'r Cabinet er mwyn iddo ei ystyried.

Roedd yr aelodau o'r farn bod yr adroddiad, sy'n amlinellu'r gwaith cadarn a wnaed yn y flwyddyn flaenorol a'r nodau ar gyfer gwella, yn galonogol. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cynnwys yr adroddiad, yn amodol ar newid bach i'r geiriad yn rhagair y Cadeirydd.

8 Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned Rhondda Cynon Taf

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant yr eitem i'r Aelodau ac eglurodd fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi cytuno i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag ymagwedd gydweithredol ar y cyd i ail-ddylunio trefniadau Blynyddoedd Cynnar ledled Cwm Taf, a hynny ym mis Tachwedd 2017. Nod y gwaith oedd ceisio creu model cyflenwi integredig.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Plant a Phobl Ifainc drosolwg i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o Wasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned Rhondda Cynon Taf, a ddatblygwyd ar y cyd â gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Darparodd y swyddog wybodaeth mewn perthynas â'r pum carfan, sy'n eistedd o dan y Pennaeth Materion Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned:

- Carfan Hyblygrwydd Rhaglenni - Staff Gwerthuso a Lleoliadau Iechyd a Therapïau Blynyddoedd Cynnar
- Carfan Gomisiynu Ymyrraeth Gynnar ac Atal - Grant Plant a Chymunedau/Contract Gofal Plant Dechrau'n Deg/Contract Iechyd Dechrau'n Deg
- Gwasanaeth Plant a Phobl Ifainc - Gwasanaeth Ieuencid/Gwasanaeth Chwarae/Tîm Cyflawni Gofal Plant
- Y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth - Carfan ABR / Carfan CANS / Carfan Teuluoedd a Mwy / Carfan Teuluoedd / Carfan Cymorth Rhianta
- Carfan Cynllunio a Thrawsnewid Gwasanaeth - Gwybodaeth

Rheoli/Cynllunio Gwasanaeth/Partneriaethau

Roedd yr aelodau'n canmol y newidiadau â ffocws a wnaed i'r gwasanaeth, ac roedden nhw'n falch o nodi bod hyn nid yn unig yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac atal, ond hefyd yn cefnogi plant sy'n dychwelyd i'w teuluoedd. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o glywed bod y gwasanaeth yn edrych ar y posibilrwydd o symud i ffwrdd o ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu pennu gan godau post daearyddol i fodel sy'n hyrwyddo mynediad cyffredinol i wasanaethau i bob teulu yn Rhondda Cynon Taf.

Soniodd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol am ganlyniadau cadarnhaol y rhaglenni i deuluoedd a chytunodd yr Aelodau y byddai'n hanfodol monitro'r gwasanaeth integredig i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol a bod tystiolaeth glir i gefnogi'r canlyniadau cadarnhaol.

PENDERFYNWYD y byddai'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn derbyn diweddariad yn y dyfodol, i roi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd.

9 Tros Gynnal Plant (TGP)

Fel y nodwyd yng Nghofnod Rhif 1, nid oedd cynrychiolydd o Tros Gynnal Plant (TGP Cymru) yn bresennol yn y cyfarfod i ddarparu cyflwyniadau i'r Aelodau.

Pwysleisiodd y Cadeirydd pa mor bwysig yw hi fod Tros Gynnal Plant Cymru yn dod i gyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

10 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

11 Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl ddiweddariad i'r Bwrdd o ran canlyniad yr arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru yng Nghartref Plant Nantgwyn.

Yn ystod trafodaethau, manteisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ar y cyfle i ganmol y staff sy'n gweithio yng Nghartref Plant Nantgwyn am eu gwaith caled parhaus. Aeth y Cyfarwyddwr Grŵp ati i gydnabod nad oedd Rhondda Cynon Taf wedi cydymffurfio â Rheoliad 14 o'r Gwasanaethau a Reoleiddir a dywedodd mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** cydnabod cynnwys yr adroddiad.

12 Materion Brys

Gyda chytundeb y Cadeirydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am y pryderon amrywiol ynghylch Bwrdd Iechyd Cwm Taf:

- Yn dilyn problemau mewn Awdurdod Lleol cyfagos, cynhaliodd swyddogion o Rhondda Cynon Taf waith ymchwil i weld a oedd unrhyw anghysondebau mewn cyngor meddygol a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, nodwyd bod pedwar achos. Yn ffodus, cafodd yr achosion eu dadlau gan swyddogion Rhondda Cynon Taf yn gynnar.
- Dywedodd y swyddog nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cynnal mwy na phum sesiwn meddygaeth mabwysiadu ar gyfer plant a phobl ifainc o Gwm Taf yn ystod mis Awst oherwydd problemau capasiti. Gan ei fod yn rhan annatod o'r broses fabwysiadu gyfan bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar fabwysidiadau sy'n mynd rhagddynt o fewn y llysoedd a neilltuwyd ar gyfer amserlenni. Mae'n hanfodol bod rhieni mabwysiadol yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o unrhyw broblemau iechyd sydd gan unrhyw blentyn y maen nhw'n ei fabwysiadu.
- Yn olaf, siaradodd y swyddog am sesiynau meddygol Plant sy'n Derbyn Gofal ac eglurodd mai dim ond 23% a gafodd eu derbyn yn brydlon yn yr ychydig fisoedd diwethaf.

Cafodd yr aelodau eu brawychu gan y diweddariad ac fe'u sicrhawyd gan swyddogion bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant wedi codi'r problemau yma gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a'i fod yn aros am ymateb gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r tri mater a amlinellwyd uchod. Clywodd yr Aelodau fod swyddogion yn parhau i fod yn wylidwrus o ran derbyn cyngor gan yr ysbytai a chafodd y pwysau enfawr ar swyddogion i anghytuno â'r cyngor a roddwyd gan feddygon proffesiynol ei gydnabod.

PENDERFYNWYD rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb y Bwrdd Iechyd, a chymau dilynol y Cyngor, i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Medi.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am

**Y Cyngorydd C Leyshon
Cadeirydd.**